# Cenn@d

15 Gorffennaf 2026

Rhifyn 281

WYTHNOSOLYN CRISTNOGOL CYMRAEG

a noddir gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru


# Gwasanaeth Comisiynu Ysgrifennydd Cyffredinol Undeb Bedyddwyr Cymru - Simeon Baker




Eglwys y Bedyddwyr Bethesda, Ty-du, ger Casnewydd, oedd canolbwynt digwyddiad pwysig yn hanes Undeb Bedyddwyr Cymru nos Lun, 6 Gorffennaf 2026. Yma y cynhaliwyd gwasanaeth comisiynu Ysgrifennydd Cyffredinol newydd yr Undeb oherwydd ei fod ef, sef y Parchg Simeon Baker, yn aelod ffyddlon yn yr eglwys.

Croesawyd pawb i Fethesda i'r achlysur nodedig hwn gan ein gweinidog, y Parchg Mark Thomas, ac yna fe estynnwyd gair o groeso i'r gwasanaeth comisiynu gan y Parchg Rosa Hunt, Llywydd adran Gymraeg Undeb Bedyddwyr Cymru, a'r Parchg Paul Smethurst, Llywydd adran ddi-Gymraeg Undeb Bedyddwyr Cymru. Creodd y ddau awyrgylch a naws hyfryd a bendithiol drwy arwain y gweithgareddau'n ddwyieithog drwy gydol y noson.





Ar ôl ein hemyn cyntaf, daeth Mr Bill Davies, Cadeirydd yr Ymddiriedolwyr, i draddodi gweddi bwrpasol ar gyfer yr achlysur. Yn dilyn hyn, fe gomisiynwyd y Parchg Simeon Baker i'w swydd newydd dan arweiniad Rosa a Paul. Gwnaeth ei addewidion yn glir a diffuant. Tro'r Bedyddwyr oedd hi wedyn i sefyll a gwneud eu datganiadau a'u haddewidion, ac yna safodd cynrychiolwyr o fudiadau eciwmenaidd eraill oedd yn bresennol i wneud hynny hefyd.

Ar ôl ein hail emyn, daeth y Parchg Marc Owen i ymuno â Simeon er mwyn traddodi ei weddi comisiynu deimladwy. Wedyn, cafwyd darlleniad gan Sioned Graves, o Eseia 42: 1–9, 'Gwas yr Arglwydd'. Yn dilyn ein trydydd emyn, cafwyd anerchiad grymus gan y Parchg Judith Morris yn ehangu ar y thema 'Gwas yr Arglwydd'. Myfyriodd ar ei phrofiad ei hun fel Ysgrifennydd Cyffredinol gan gynnig neges deimladwy ac ysbrydoledig i Simeon ac i ni i gyd. Soniodd am y dyletswyddau a'r heriau oedd ynghlwm â'r swydd ond hefyd y pleser, y boddhad a'r bendithion oedd i'w cael drwyddi. Roedd ei neges yn sicr o fod wedi cyffwrdd â chalon Simeon ac wedi creu sbardun pwerus iddo ar ddechrau ei swydd newydd a phwysig yng ngwaith yr Arglwydd.

Cafwyd emyn arall i gloi. Roedd fersiwn Cymraeg a Saesneg o bob emyn ar y sgrin yn ystod y gwasanaeth, a hyfryd iawn oedd clywed y gynulleidfa'n morio canu gyda'i gilydd yn eu dewis iaith. Diolchodd y Parchg Simeon Baker i'r rhai a gymerodd ran yn ystod y gwasanaeth, gan gynnwys yr offerynwyr, i eglwys Bethesda am ei gynnal ac i bawb oedd wedi dod i'w gefnogi. Yna, traddododd ein Hysgrifennydd Cyffredinol newydd y Fendith i gloi gwasanaeth ysbrydoledig a bendithiol.

*Bronwen Green*


Gwaith Cyngor Ysgolion Sul Cymru
**Tudalen 2**

Cyflwyno Beiblau yng Nghaerfyrddin
**Tudalen 5**

Sul Hwyl yng Ngheredigion
**Tudalen 7**

# Gwaith Cyngor Ysgolion Sul Cymru, 2025

**Crynodeb o'r adroddiad a gyflwynwyd gan Aled Davies i gyfarfod blynyddol Cyngor Ysgolion Sul Cymru ddechrau Mehefin eleni.**

Pleser yw cyflwyno'r adroddiad hwn i'ch sylw yn crynhoi prif weithgarwch Cyngor Ysgolion Sul Cymru a Chyhoeddiadau'r Gair yn ystod 2025. Bu hon yn flwyddyn lle cafwyd cyfle i deithio ac ymweld â nifer o Henaduriaethau, Cymanfaoedd a Chyfundebau ledled y wlad, a chyfarfod arweinwyr ar draws yr enwadau.

Daeth cyfle i drefnu ambell noson adnoddau, yn ogystal â mynychu'r gwyliau enwadol a'n gwyliau cenedlaethol. Mae ein gwaith ar y gwefannau'n parhau, a datblygwyd adrannau newydd o fewn ysgolsul.com a cristnogaeth.cymru yn benodol. Cyhoeddwyd naw cyfrol newydd yn ystod y flwyddyn, a threfnwyd cyfarfodydd lansio a hyrwyddo ar eu cyfer.

Erbyn hyn mae adnoddau Cymraeg cyfoes addas ar gael ar gyfer pob achlysur, bron: cynnal ysgolion Sul (o leiaf wyth cyfres amrywiol o werslyfrau), clybiau plant ac ieuenctid, Llan Llanast, Chwarae a Chredu, deunydd addoli Roots ac adnoddau ar gyfer ymweld ag ysgolion dyddiol.

Yr her bellach yw annog ac ysbrydoli pobl yn lleol i fynd ati o ddifri, gan gydweithio o fewn ardaloedd – ac yn gydenwadol lle mae hynny'n ymarferol. Bydd yn braf cael cydweithio ag enwadau a mudiadau Cristnogol eraill i wireddu hynny, mewn cyfnod lle mae cyfartaledd oed ein cynulleidfaoedd eglwysig yn codi.

Rhai o'r llyfrau a gyhoeddwyd gennym yn ystod 2025 oedd:

*Gweddïo sy'n Bywhau* – addasiad Meirion Morris o *Reviving Prayer*

*Hoff Adnodau'r Cymry* – 60 o Gymry yn rhannu am eu hoff adnodau yn y Beibl

*Llwybr Cadfan* – cyfrol farddonol yn dilyn Llwybr Cadfan, gan Siôn Aled a Sian Northey

*Dyrys Daith* – cyfrol yn ymateb i heriau newid hinsawdd, gan Huw John Hughes

*Reit Rownd* – hanes taith ffydd Aled Jones Williams

*Yng Ngolwg Ffydd* – 60 myfyrdod gan Owain Llŷr Evans

*Cyrraedd Bannau* – cyfrol hunangofiannol gan Aled Edwards

*Bywyd â Phwrpas* – addasiad Cymraeg Arwel Ellis Jones o *The Purpose Driven Life* gan Rick Warren

*Trwy'r Anialwch* – Trystan Owain Hughes yn trafod pererindod, dioddefaint a gobaith.

Treuliwyd amser hefyd yn gweithio ar lyfrau newydd ar gyfer 2026:

*Cenhadaeth y Cymry* – cyfrol ar genhadon Cymreig gan D Ben Rees

*Cydymaith i'r Testament Newydd Cymraeg* gan John Tudno Williams

*Lleisiau'r Fendith* gan Gwen Emyr – bywgraffiadau o rai o wragedd amlwg bywyd ffydd Cymru dros y 50 mlynedd olaf.

Mae nifer o gyfrolau eraill hefyd ar y gweill i'w cyhoeddi yn ystod ail hanner y flwyddyn.

Mae gwaith ar ein pum gwefan yn parhau. Dyma grynodeb o'r prif ddatblygiadau:

www.ysgolsul.com – adrannau newydd: Blynyddoedd cynnar, Bedydd, Derbyn a Chonfformasiwn, Lle plant ym mywyd yr eglwys a chwrs hyfforddiant Theology X i weithwyr plant;

www.cristnogaeth.cymru – adrannau newydd: Dwyieithrwydd a dysgwyr, Iechyd a hunan-les, Technoleg yn yr eglwys, Cyrsiau cyflwyno ffydd, ffydd a gwleidyddiaeth a phererindod;

www.gair.cymru – ychwanegwyd tua 300 o ffeiliau o adnoddau i'w lawrlwytho;

www.gobaith.cymru – ychwanegwyd 40 o ganeuon Cristnogol cyfoes, ynghyd â mynegair beiblaidd a rhestr emynau dwyieithog.

Yn ystod 2025 cyflwynwyd saith Medal Gee mewn pedwar lleoliad gwahanol. Braf oedd gweld capeli llawn ar gyfer anrhydeddu selogion lleol.

Mae ein gwaith o gynnal deunydd addoli Roots yn parhau, ac ar hyn o bryd mae tipyn o newidiadau yn yr arfaeth, gan gynnwys gwefan newydd sbon a dylunwaith hollol newydd i




gynnwys y cylchgrawn print. Mae nifer y tanysgrifwyr yn parhau'n gyson ac adborth cwsmeriaid yn werthfawrogol iawn o'r adnoddau. Bydd y gweddïau Cymraeg wythnosol, ynghyd â dewisiadau emynau a dwy daflen waith wythnosol i blant yn parhau yn Gymraeg. Mi fyddaf yn gweithredu fel Cadeirydd Roots o 2025 hyd ddiwedd 2026.

Mewn dyddiau heriol, diolchwn am bob arwydd gobeithiol a welir ledled Cymru. Diolch am bob arweinydd a gwirfoddolwr sy'n ymdrechu i gynnal gweithgarwch i blant a'u teuluoedd. Wrth gloi'r adroddiad hwn, hoffwn bwysleisio unwaith eto ein hawydd fel Cyngor i gefnogi sefydlu mentrau newydd (neu aildanio gwaith sy'n dioddef), a'n parodrwydd i gyfarfod er mwyn trafod opsiynau a'r hyn sy'n ymarferol ac yn bosib o fewn ein cymunedau lleol.

Diolch am gefnogaeth swyddogion ac aelodau'r Cyngor i'r gwaith – yn ariannol ac yn ymarferol. Rydym yn ddiolchgar am gael cyfle i gydweithio a gwasanaethu'r gwahanol enwadau sy'n ffurfio bwrdd rheoli'r Cyngor. Diolch i Mererid Mair am fod yn gefn i'r gwaith fel Cadeirydd, ac am bob cydweithio hapus hefyd rhwng Kathryn Morris a Rheinallt Thomas sy'n gofalu am y wedd ariannol. Yn ystod y flwyddyn bu i Dyfrig Rees ymddeol, a braf oedd cael croesawu ei olynydd, Elinor Wyn Reynolds, i ymuno fel ymddiriedolwr newydd i'r Cyngor ar ran Undeb yr Annibynwyr Cymraeg.

Gan ddiolch am bob cydweithrediad ac ymddiriedaeth,

*Aled Davies, Cyfarwyddwr*

# O’r byd a’r betws

Colofn Denzil I. John



# Empathi’r Efengyl

Gwyddom fod nifer sylweddol o sioeau amaethyddol yn cael eu cynnal yn ystod y flwyddyn, a hynny mewn sawl ardal a sir. Y Sioe Fawr yn Llanelwedd sy’n goron ar y sioeau i gyd, wrth gwrs, ond mae’r sioeau llai yn bwysig hefyd, fel y mae’r eisteddfodau lleol yn rhan o’r hyn sy’n greiddiol i wead cymdogaethau Cymru. Eto, mae’r digwyddiad yn Llanelwedd yn hawlio ffocws i gymuned amaethyddol ein gwlad. Mae’n gyfle i weld cynnyrch o’r safon uchaf, y peiriannau mwyaf diweddar, er bod cost y rhelyw ohonynt yn frawychus. I ble’r aeth oes y Ffergi llwyd – y tractor a fu mor arwyddocaol i’r ffarmwr, fel y bu dyfodiad y peiriant golchi dillad i’w wraig?

Dros y tri chwarter canrif diwethaf, aeth mwy na’r tractorau yn fawr. Cydiwyd fferm wrth fferm, ac i’r rhai a oroesodd y broses honno, gwelwyd buchesi godro yn y cannoedd a diadelloedd defaid yn y miloedd. Aeth y dyledion i’r banciau’n arswydus o fawr hefyd, a bu cynnydd yn niferoedd yr amaethwyr a brofodd dywyllwch ofn ac anobaith na allwn ei ddychmygu. Mae’r diwydiant wedi mynd yn frawychus o unig ac arbenigol. Sawl ffermwr sydd wedi cyflawni hunanladdiad yng Nghymru dros y tair blynedd diwethaf, a sut mae’r diwydiant yn cynnig cynhaliaeth a chymdeithas i’r sawl sy’n gweld llogau eu dyled i’r banc yn ormesol o fawr?

Yn y cyfnod ar ôl yr Ail Ryfel Byd, roedd eglwysi cefn gwlad Cymru yn ymddangos yn gryf, gyda nifer o amaethwyr y cymunedau’n eistedd yn seddi’r blaenoriaid. Byddent yn selog yn y cyrddau gweddi ac yn gofalu bod y mynwentydd yn cael eu cadw’n daclus. Mae’r oes honno wedi edwino ac mae’r iaith Gymraeg wedi cilio wrth i blant y teuluoedd amaethyddol a werthodd eu tir grwydro i’r dinasoedd i fyw. Diolch am ddygnwch diwylliannol Cymreig yn ein cefn gwlad, a bydd y rhai a fydd yn ymweld ag Eisteddfod y Garreg Las yn siŵr o godi eu calonnau oherwydd hynny.

Diolch hefyd am y cyhoeddiad diweddar fod grantiau ar gael gan Senedd Cymru i hyrwyddo buddsoddiadau i’r amaethwyr sy’n cynnig syniadau i ddatblygu eu busnesau, yn arbennig gyda chynlluniau’n cynnig defnydd o ynni adnewyddol i’r dyfodol. Tybed a welir beudái â phaneli solar yn darparu trydan i leihau costau? A fydd unedau newydd yn magu twrcwns neu ieir ag adnodd adnewyddol tebyg? Sawl busnes amaethyddol fydd yn ystyried bod lleoliadau cyfaddas ar eu tir i godi twrbeini gwynt, neu efallai fod rhaeadrau afonydd yn galw am fentergarwch gosod twrbeini a fydd, dros bum i saith mlynedd, yn darparu trydan ar gyfer y fferm gyfan? Mae’r amaethwyr ar flaen y gad yn gweithio o blaid cynaliadwyaeth yr amgylchedd, ond mae angen cymorth pawb arnynt i hyrwyddo cynaliadwyaeth eu diwydiant a natur ein cymdogaethau

Mae’r ffermwyr sydd wedi goroesi wedi profi bod mentergarwch yn eu hanian, a byddai’n braf meddwl bod yr amaethwyr, o bob sector diwydiannol, yn synhwyro natur Duw yng nghanol byd natur. Mae amaethwyr angen clywed a derbyn newyddion da yr Efengyl gymaint â phawb arall, ac mae angen i’r eglwysi sy’n bodoli yn yr ardaloedd hynny gael deialog yn llawn cydymdeimlad a chefnogaeth â’r amaethwyr hyn. Dyna yw dangos empathi’r Efengyl â heriau’r diwydiant. Oni ddylai’r enwadau gydweithio â’i gilydd i ddarparu adnoddau, i galonogi’r eglwysi i fynd allan at yr amaethwyr a chynnig trafodaeth adeiladol yn wyneb heriau’r dydd? Roedd Iesu yn adnabod yr heuwr a’r bugail, ac mae angen i’r eglwysi hau had a bugeilio’r defaid o’r newydd.






# Prynhawn o fawl – moli yn Eglwys Gymraeg Bro Treffynnon

Ar brynhawn tesog braf daeth cynulliad fechan o gredinwyr ar ein gilydd i foli neb llai na'n Harglwydd Iesu Grist. Braint i ni, ffyddloniaid o Eglwys Gymraeg Bro Treffynnon, ac eraill oedd bod yn bresennol.

Trefnydd y gwasanaeth oedd Tim Heeley, sy'n Ysgogydd dan nawdd Henaduriaeth y Gogledd-ddwyrain. Yn ei gynorthwyo yr oedd Catrin Hampton, Ysgogydd Cenhadol arall sy'n brysur yn ei swydd hefyd ac yn annwyl ei ffordd gyda'r criw Ti a Fi/Traed Bach (Treffynnon a'r Wyddgrug).

Byrdwn y prynhawn oedd gwneud i ni feddwl am y gwahanol ddulliau o 'foliant' a'r rhestr o gyfarwyddiadau a geir yn y salmau i fynegi hynny.

Wyddoch chi beth yw ystyr neu arwyddocâd y geiriau allweddol hyn: *shabach, Tehilah, zamar, halal, Barak, towdah* ac *yadah?* Mae'n siŵr fod pob cynulleidfa ym mhob oedfa yn ategu'r moliant trwy *Tehilah* a *halal*. Hwyrach y bydd ambell gennad yn gweithredu â *Barak* neu â *shabach* (un yn uwch na'r llall).

Y tri emyn gafodd ein sylw oedd rhifau 565, 373 a 827 (*Caneuon Ffydd*). Cawsom fynegiant o foliant yr enaid gan yr aelod ieuengaf – Bethan (merch Tim) yn clocsio i orfoleddu ein Tad nefol – *halal* (moliant yr enaid). Profiad newydd sbon i ni oedd canu emyn 827 (Cofia'n gwlad, Benllywydd tirion) fel cerdd dant cynulleidfaol (*Tehilah*) – gwerth ei glywed a gwerth ein hymdrech, bid siŵr! Trawiadol iawn hefyd oedd gwrando ar Clare Heeley a Bethan yn cyflwyno'r emyn 'Iesu tirion' mewn deulais eithriadol o swynol ac roedd y cyfeilio'n arbennig gan Tim (piano/organ), efo Gary Mercer ar y gitâr.

Adroddodd Catrin hanes Joshua yn ufuddhau i gynllun rhyfedd Duw i ddymchwel y muriau. Onid dyletswydd pob un ohonom ydy dymchwel y muriau a moli Duw – heb unrhyw swildod o gwbl?

Prynhawn diddorol iawn, a diolch i'r criw am eu hymdrechion. Braf hefyd oedd derbyn paned a bisgedi a ddarparwyd gan Mena ac Eirian.

*Deo gratia* pia hi!

*Geraint Jones*




# Llunio Gwers Ysgol Sul:

## adran newydd ac arbrofol ar wefan www.gair.cymru gan Gyngor Ysgolion Sul Cymru

Tybed ydych chi angen help efo creu neu lunio gwers ysgol Sul? Mae llawer o adnoddau ar gael ar ein gwefan – ond erbyn hyn mae help ychwanegol ar gael. Rydym wedi datblygu rhaglen sy'n creu gwers gan ddefnyddio'r gwahanol adnoddau sydd wedi eu gwasgaru ar draws ein gwefan, gan ddod â'r cyfan oll at ei gilydd i greu patrwm o wers.

Mae'r adran newydd ac arbrofol hon yn ein gwefan yn defnyddio Deallusrwydd Artiffisial (AI) i chwilio drwy ein harchif helaeth o adnoddau er mwyn helpu i lunio gwersi ysgol Sul. Gall arbed cryn dipyn o amser ac ymdrech, ond gan nad yw'r dechnoleg yn berffaith, gofynnwn ichi ddarllen, gwirio a golygu'r deunydd yn ofalus ac yn weddigar cyn ei ddefnyddio gyda'ch dosbarth neu eich clwb.

Yn wahanol i beiriannau Deallusrwydd Artiffisial cyffredinol, mae'r system hon wedi'i chyfyngu i chwilio ac echdynnu deunydd o archif adnoddau Cyngor Ysgolion Sul Cymru yn unig. Mae hynny'n golygu bod yr atebion yn seiliedig ar ein hadnoddau ni, yn hytrach nag ar wybodaeth ehangach o'r rhyngrwyd.

Trwy ofyn am wers benodol, e.e. 'Crea wers ar stori'r Samariad Trugarog sy'n addas i blant oed cynradd', mae'r peiriant yn mynd ati i chwilio a chreu patrwm a syniadau, gan gyfeirio at wersi, ffilmiau, taflenni, patrwm o wers a gweddi.

Byddem yn falch iawn o gael unrhyw adborth gan ddefnyddwyr, wrth i ni ddatblygu a helaethu'r adnodd.







# Cyflwyno Beiblau yng Nghaerfyrddin

Braint flynyddol yng Nghaerfyrddin yw cyflwyno Beiblau Cymraeg i ysgolion Cymraeg y cylch. Felly, hyfrydwch gan y Parchg Beti-Wyn oedd cyflwyno Beiblau i Flwyddyn 5 Ysgol y Dderwen. Noddwyd y Beiblau hyn gan gapeli ac eglwysi Cymraeg Caerfyrddin yn dilyn yr oedfa Gŵyl Ddewi undebol a gynhaliwyd yn y dref. Hefyd, hyfrydwch oedd cyflwyno Beiblau i Flwyddyn 6 Ysgol Bancyfelin. Noddwyd y Beibau hyn gan Gapel Bancyfelin er cof am y ddiweddar Sallie Walters a fu'n aelod ffyddlon yno ar hyd ei hoes. Diolch am bob cefnogaeth a haelioni gan ffyddloniaid capeli ac eglwysi'r ardal sy'n ein galluogi i gyflawni hyn bob blwyddyn.





# Gŵyl Hirddydd Haf Dosbarth Caerfyrddin



Mae'n ddwy flynedd ar bymtheg ers i ni gynnal oedfa awyr agored ganol haf i gapeli Dosbarth Caerfyrddin, Henaduriaeth Myrddin. Mae'r traddodiad, a ddechreuwyd gan Parch. Beti-Wyn, yn parhau. Ar y Green yn Llansteffan y cynhaliwyd yr oedfaon cyntaf, a chofiwn hefyd fod y syrcas wedi dod i barc y dref un flwyddyn ac fe gawsom ein hoedfa yn y Big Top ar yr achlysur hwnnw. Ond bellech ry'n ni ym Mharc Caerfyrddin ers sawl blwyddyn ac yn ddiolchgar i'r gofalwyr a phobl y siop am eu parodrwydd i'n cynorthwyo.

Roedd y gwasanaeth yng ngofal y Parch. Emyr Williams. Trwy gyfrwng darlleniadau, gweddïau ac emynau a gyflwynwyd gan gynrychiolwyr o gapeli Bro Dewi Fawr; Bancyfelin; Moreia, Llansteffan; a Babell Zion Newydd, fe'n hatgoffwyd am ein cyfrifoldeb i gadw heddwch o fewn ein teuluoedd, ein cymunedau a'r gymuned ehangach.


Ond mae yna heddwch sydd y tu hwnt i'n deall ni ac fe'n harweiniwyd gan Emyr i ystyried yr adnod: "Rwyf yn gadael i chwi dangnefedd; yr wyf yn rhoi i chwi fy nhangnefedd i fy hun." Roedd Iesu yn addo rhywbeth na all y byd ei roi na'i gymryd oddi wrthym. Nid rhywbeth pell nac anghyraeddadwy yw heddwch Crist. Mae ynghanol bywyd bob dydd.

Cafwyd eitem o gân gan blant y Babell Zion Newydd ac fe'n harweiniwyd ganddynt yn y fendith i ddiweddu'r oedfa.

*Helen Gibbon*

# Codi'r Llen: merched yr Hen Destament a'u dewisiadau

Maes Llafur i oedolion 2025/26




### Codi'r Llen 31

## Ymson Bathsheba

Peidiwch â meddwl amdanaf fel merch a roddodd demtasiwn o flaen y brenin. Ro'n i'n ferch i 'nhad, yn wraig briod, yn berson o gig a gwaed â theimladau, urddas ac enw da. Ro'n i'n hardd ar y tu fas a'r tu fewn. A chyn imi fod yn destun sgwrs, a chael fy mhardduo, roedd gen i fywyd.

Ond newidiodd popeth, un noson. Fe'm gwelwyd gan y brenin. Es i ddim ato o'm gwirfodd, ond cael fy ngalw ato wnes i – dyna ddigwyddodd. Roedd yn rhaid imi ufuddhau.

Beth fyddai wedi digwydd imi pe bawn wedi gwrthod? Beth ddylwn fod wedi'i ddweud? 'Na'? Na, i'r brenin? Na, i reolwr byddinoedd? Na, i'r un allai ddewis fy nedfrydu i farwolaeth?

Galwyd yr hyn ddigwyddodd yn berthynas odinebus. Dywedaf innau mai grym oedd ar waith. Gofynnodd rhai pam es i ato. Gofynnaf finnau'n awr pam y meddyliodd y gallai alw amdanaf? 'Roedd hi'n noethlymun,' medd rhai. Atebaf mai fe benderfynodd barhau i wylio.

Dros y canrifoedd, rwyf wedi cael fy meio. Ches i mo'r cyfle i ddweud fy nweud, i'm hamddiffyn fy hun a'm henw da. Duw ŵyr y cyfan; roedd E'n gwybod o'r eiliad y gwelodd y brenin fy nghorff. Ac rydw innau wedi gweld llawer un arall ar fy ôl i. Mae brenhinoedd wedi mynd a dod; mae arweinyddion gwledydd wedi esgyn a disgyn; mae dynion mewn safleoedd uchel wedi ysbrydoli a siomi. Ond yr un yw'r grym bob tro.

Grym sy'n gyrru negeseuon gyda'r nos. Grym sy'n dweud 'Tyrd'. Grym sy'n siarsio bod yn rhaid aros yn dawel er mwyn cadw pethau'n saff. Grym sy'n disgwyl y bydd pawb yn achub ei gam ef yn gyntaf.

Rydych chi wedi gweld merched yn cael eu henwi a'u gwneud yn destun sbort. Gwyddoch, yn siŵr, am ferched galluog yn derbyn cael eu trin yn wael. Gŵyr pawb am ferched yn cael eu gwawdio am ddymchwel rhywun â statws. Ac mae merched yn aml yn methu eu rhyddhau eu hunain o rigolau arferiad.

Canrifoedd gwahanol, ond yr un yw'r sgript. Ac a glywsoch chi am yr un stori'n digwydd yn eich amser chi: mewn swyddfa, coleg, cartref, senedd-dy, ysgol, eglwys? Wyddoch chi?

Peidied neb â theimlo trueni drosof. Ond gofynnaf ichi wrando, oherwydd nid pawb sy'n llwyddo i ymdopi fel y gwnes i. Nid pawb sy'n dod drwyddi. Nid pawb sy'n gallu ymgodymu heb fynd dan y don. Felly, gwrandewch ar y lleisiau na chawsant eu clywed oherwydd bod rhywun pwysicach wedi newid y naratif. Rhywun â mwy o arian, mwy o ddilynwyr, mwy o gynulleidfa.

Ac yna, wedi ichi wrando, gofynnaf ichi dderbyn bod grym yn gallu brifo. Nid cydsynio, cofiwch, yw distawrwydd. Does dim cywilydd mewn ceisio goroesi.

Felly, cofiwch fi, ie, ond nid fel y ferch hardd a welwyd gan lygaid brenin, ond fel y ferch a oroesodd. A pheidied neb â gostwng ei lais wrth ynganu f'enw. Codwch eich lleisiau, yn uchel. D'wedwch fy enw a'i arddel ag urddas.

Oherwydd heddiw, yn rhywle, mae merch arall yn crefu am gael ei chredu.

**Holi**

- Sut mae darllen y stori hon drwy lygaid grym yn hytrach na thrwy lygaid temtasiwn yn newid ein dealltwriaeth?
- Darllenwch 2 Samuel 11:1–27. Beth ddywed y darn am ddewisiadau Bathsheba a Dafydd, a beth gaiff ei hepgor?
- Ydyn ni'n gweld grym anghyfiawn yn effeithio ar bobl sy'n codi eu llais yn ein cyfnod ni? Ystyriwch y gweithle, ysgolion, eglwysi, bywyd cyhoeddus, cylchoedd cymdeithasol.
- Oes modd i ni, Gristnogion, gydnabod bod rhai sefyllfaoedd yn bodoli lle mae grym yn cael ei gamddefnyddio? Oes cyfrifoldeb arnom ni i ofalu am y rhai mwyaf bregus yn hyn o beth?
- Sut gall yr Eglwys fod yn fan diogel a chynhwysol, lle mae pobl yn teimlo'n saff i siarad am sefyllfaoedd, gwirioneddau, a chyfiawnder? A pha gamau cadarnhaol y gallwn eu cymryd fel eglwysi i sicrhau bod gras a chariad yn amlwg ac yn weithredol i bawb?

**Gweddi**

Gofynnwn am ddealltwriaeth,
pan fo'r pwnc yn ddyrys.
Gofynnwn am fewnwelediad,
pan nad yw'r darlun yn glir.
Gofynnwn am amynedd,
pan fyddwn yn rhwystredig.
Gofynnwn am urddas,
pan nad ydym yn gyfforddus.
Gofynnwn am ddewrder,
pan fo angen ymgodymu â sefyllfa.
Gofynnwn am obaith,
pan fo anobaith â'i grafangau ynom.
Gofynnwn am ddatgloi'r drws,
pan fo'r clo'n rhydlyd.
Gofynnwn am fôn braich i chwalu'r muriau, pan fo'r cerrig yn galed.
Gofynnwn am gyhyrau gwydn i nofio yn erbyn y lli, pan fo'r cerrynt yn gryf.
Gofynnwn am ddatod rhwymau,
pan fo'r clymau'n dynn.
Gofynnwn am gymorth. Amen.

*Siân Meinir*

**Cyhoeddiadau Radio Cymru, 19 Gorffennaf 2026**

BBC radio cymru | S4C

*Caniadaeth y Cysegr*

**Sul, 19 Gorffennaf,**
**am 7:30yb a 4:30yp**
Amrywiaeth o emynau yng nghwmni Esyllt Maelor, Morfa Nefyn

*Oedfa Radio Cymru*

**Sul, 19 Gorffennaf**
**am 12:00yp**
Oedfa dan arweiniad John Pritchard, Llanberis

# Sul Hwyl yng Ngheredigion

## gan Marian B. Hughes

**Bore Sul, 5 Gorffennaf, roedd Ysgubor Digwyddiadau Fferm y Bargoed (Moody Meadows), Llwyncelyn, dang ei sang wrth i dros 200 o blant, ieuenctid ac oedolion o bob oed ddod at ei gilydd ar gyfer Sul Hwyl Henaduriaeth Ceredigion a Gogledd Penfro.**





Croesawyd pawb i'r achlysur gan Mrs Catherine Hughes, Cadeirydd Pwyllgor Plant ac Ieuenctid yr Henaduriaeth. I ddechrau'r oedfa, ymunodd pawb i ganu'r emynau cyfarwydd 'Cristion bychan ydwyf' a 'Braf yw bwyta', i gyfeiliant Miss Eleri Davies, ac fe gafwyd eitem gerddorol hyfryd gan Mari, Mabli a Grug.

Yna, gwahoddwyd y gŵr gwadd, sef Martyn Geraint, i'r llwyfan. Gyda'i asbri a'i egni rhyfeddol, arweiniodd y plant ar daith rithiol mewn awyren o amgylch y byd, gan gyfarfod nifer o gymeriadau hynod wrth iddo lanio mewn nifer o wledydd. Tynnodd sylw at bwysigrwydd bod yn ffrind i bawb, ac yn arbennig i'r Iesu, fel yng ngeiriau'r gân: 'Helô, helô, sut wyt ti, fy ffrind?'

Arweiniodd yr 'hydration break', fel a geir yng ngemau pêl-droed Cwpan y Byd ond gan ddefnyddio gwn dŵr anferth y tro hwn, at dipyn o gyffro ymysg hen ac ifanc, fel ei gilydd.

Cyn cloi, cyfeiriodd Martyn at ffrwythau'r Ysbryd a'n cyfrifoldeb ni i gyd fel ffrindiau Iesu i ddangos y nodweddion sy'n cael eu rhestru gan yr Apostol Paul: cariad, llawenydd, heddwch dwfn, amynedd, caredigrwydd, daioni, ffyddlondeb, addfwynder a hunanreolaeth (Galatiaid 5:22,23; beibl.net).

Gwerthfawrogwyd hefyd y gornel liwio a chrefft i'r rhai ieuengaf yng nghwmni eu rhieni, dan ofal Mrs Catherine Griffiths.

Yn dilyn yr oedfa, cafodd y plant gyfle i fwynhau eu hunain yn yr ardal chwarae ac ar y trampolîn, ac roedd cinio blasus ar gael i bawb a digon o gyfle i sgwrsio.

Gwnaed casgliad tuag at apêl Cymorth Cristnogol i helpu'r rhai sydd wedi dioddef yn sgil y daeargrynfeydd yn Venezuela, gan adlewyrchu neges bwysig geiriau un o'r caneuon a rannwyd gan Martyn Geraint:

*'Dwi'n cofio geiriau Mab y Dyn i garu Duw ac i garu pawb fel fi fy hun.'*



Diwrnod i'w gofio – yn llawn hwyl, ond gyda neges berthnasol a phwysig i bawb.



# Pwy yw'r Terfysgwyr?

## gan Angharad Tomos

### gyda diolch am e-fwletin amserol gan Cristnogaeth21

Yn ddiweddar, roeddwn yn y Llyfrgell Genedlaethol i fod yn rhan o lun hanesyddol – llond stafell o ferched oedd wedi eu harestio am dorri'r gyfraith efo Cymdeithas yr Iaith. Bydd y llun yn rhan o raglen ddogfen a ddangosir ym mis Hydref am ferched yr iaith.

Byddai'r troseddau wedi amrywio o beintio sloganau, difrodi arwyddion ffyrdd, malu ffenestri tai haf neu wneud difrod i drosglwyddydd teledu, ond byddent yn dod dan deitl yr un drosedd – 'difrod troseddol' (neu 'criminal damage' yn Saesneg). Am y drosedd hon, byddem wedi cael dirwy, ac os nad oeddem yn ei thalu, byddai hynny yn arwain at garchariad. Eithriad oedd carcharu yn syth, heb gyfle i dalu dirwy. Dwi'n diolch mai yn yr ugeinfed ganrif ro'n i'n rhan o'r troseddau hyn, ac nid heddiw. Dwi'n diolch fod llawer mwy o lysoedd yn weithredol yn y ganrif ddwytha, a rheithgorau lleol yn rhan anhepgor o hynny.

Meddwl ydw i am y rhai gafodd ddedfrydau maith o garchar y mis dwytha am weithredu yn enw Palestine Action. Y llynedd gwnaeth Yvette Cooper, ar ran Llywodraeth Prydain, y mudiad hwn yn fudiad anghyfreithlon. O ganlyniad, roedd dal poster gyda'r geiriau 'Cefnogaf Palestine Action' yn ddigon i gael eich arestio ac mae miloedd yn dal i ddisgwyl achos llys. Roedd nifer o bobl ifanc oedd wedi peri difrod i ffatri Elbit (sy'n gwneud rhannau i drôns a ddefnyddir yn yr hil-laddiad yn Gaza) yn y carchar yn disgwyl achos llys. Roedd rhai o'u cyd-weithredwyr wedi cael eu dedfrydu gan reithgor yn ddieuog o unrhyw drosedd.

Ond roedd yr hinsawdd wedi newid pan ddaeth y pedwar olaf i'r llys. Ni chawsant achos teg. Roeddent bellach yn rhan o fudiad terfysgol. Gwaharddodd y barnwr yr erlyniad rhag sôn am gymhellion y gweithredwyr na'r hyn yr oedd Elbit yn ei wneud. Difrod troseddol oedd y cyhuddiad, ond cawsant eu trin fel terfysgwyr. Cawsant ddedfrydau'n amrywio o bum i saith mlynedd o garchar, ac mae ar eu record droseddol bellach eu bod wedi bod yn rhan o fudiad terfysgol. Mae pum mlynedd yn amser maith. Mae'n oes os ydych yn dair ar hugain oed.

Gwnaeth Guto Prys ap Gwynfor bwynt dilys yn ddiweddar wrth drafod penderfyniad yr Uchel Lys ar Palestine Action. Roedd y penderfyniad i labelu'r mudiad fel un terfysgol wedi cael ei herio, a mater i'r Uchel Lys oedd adolygu penderfyniad Yvette Cooper. Ystyriwyd y ffeithiau gan




farnwr uchaf Prydain, yr Arglwyddes Brif Ustus Sue Carr. Wrth gymharu Palestine Action efo achos y Syffragéts, dywedodd fod yr olaf yn gweithredu'n ddi-drais. Fel y dywedodd Guto, 'gwyrdroi hanes' oedd hyn. 'Fe wnaeth y Syffragéts daflu bomiau, llosgi tai pobol a buont yn gyfrifol am ladd pedwar person.'

Pan sgwennais nofel *Henriét y Syffrajéts* rai blynyddoedd yn ôl, cefais agoriad llygad am ddulliau'r Syffrajéts o weithredu. Agoriad llygad hefyd oedd gweld pa mor ffiaidd oedd y modd y cawsant eu trin yn y carchar. Ond bellach, gyda niwl hanes yn llen rhyngom a'r merched, mae modd eu rhamantu. Yn wir, mae cerflun parchus o syffrajét dafliad carchar o'r Tŷ Cyffredin! Does gen i ddim amheuaeth – petai'r Syffrajéts yn gweithredu heddiw, caent eu labelu fel mudiad terfysgol gan Lywodraeth Starmer.

O'i ddyddiau'n fyfyriwr y gyfraith, cofiodd Guto y geiriau 'Law is the royal prerogative to defend its own interests'. A dyna'r sefyllfa o hyd. Pan nad yw llywodraeth yn hoffi sut mae pobl gyffredin yn ymddwyn, gall ddibynnu ar y gyfraith i warchod ei buddiannau. Y cyfan sydd ei angen yw cyfarwyddo barnwyr yr Uchel Lys ac Ysgrifenyddion Cartref i wahardd ambell fudiad protest a'u labelu fel 'terfysgwyr'.

Dyddiau peryglus yw'r rhain, a dylem oll fod yn bryderus am y modd y caiff llysoedd barn eu cau a'r alwad i ddileu rheithgorau. Camau tuag at Ffasgaeth ydynt. Ein dyletswydd ni yw gweiddi yn fwy croch.

**Anfonwch eich cyfraniadau at y golygyddion:** Aled Davies: aled@ysgolsul.com
Huw Powell-Davies: huw@cennad.cymru
Tîm Golygyddol: Aled Davies, Huw Powell-Davies a Marian Beech Hughes (golygydd iaith)
Gwefan: www.cennad.cymru | Facebook: CennadCymru | X: @CennadCymru
Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru.
*Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr **Cenn@d** yn cynrychioli barn swyddogol yr enwadau hyn.*

Os ydych yn poeni am unigolyn neu sefyllfa ac angen cyngor diogelu, cysylltwch â'r Panel Diogelu Cydenwadol **www.panel.cymru** **ar 01745 817584** **neu 07957 510346** yn ystod oriau swyddfa neu **Thirtyone:eight ar 0303 0031111** am gyngor tu allan i oriau swyddfa.